**Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ● Heol Wynne ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF**
**01766 832 398 clerc@cyngortrefffestiniog.cymru**

# AGENDA Cyfarfod Arferol

**● 7pm – 09 / 12 / 2024 ● Siambr y Cyngor ac ar-lein**

---

## Siambr y Cyngor ac Ar-lein

**DEDDF CYRFF CYHOEDDUS (MYNEDIAD I GYFARFODYDD) ADRAN 1(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ATODLEN 12 PARAGRAFF 26(2) [A] NODER – mi fydd Cyngor Tref Ffestiniog yn cwrdd ar-lein drwy feddalwedd Zoom, fel y caniateir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 YN UNOL Â GOFYNION Y DARPARIAETHAU STATUDOL UCHOD HYSBYSIR TRWY HYN Y CYNHELIR CYFARFOD MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG**

**Drwy feddalwedd Zoom ar y ddolen ganlynol**

https://us02web.zoom.us/j/82524571203?pwd=bz7D5KhYzCwJtOS5bU918FkAb9d8WF.1

**Meeting ID: 825 2457 1203**
**Passcode: 603944**

**A hefyd wyneb yn wyneb yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog.**

**NOS LUN 09 RHAGFYR 2024 AM 7.00PM**
**AT GADEIRYDD AC AELODAU CYNGOR TREF FFESTINIOG. FE'CH GWYSIR DRWY HYN I FYNYCHU CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG. MAE HAWL GAN AELODAU'R CYHOEDD I FYNYCHU'R CYFARFOD ONI WNEIR PENDERFYNIAD PRIODOL YN EU HATAL OHONO**

**Noder y bydd y cyfarfod yn cael ei recordio oherwydd yr angen i gofnodi ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben.**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **Derbyn Ymddiheuriadau** |
| **2.** | | **Datgan Buddiannau** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd ffurflen Datgan Buddiant Personol angen ei llofnodi yn y cyfarfod neu ei hanfon at y Clerc neu'r Dirprwy Glerc pan yn briodol. |
| **3.** | | **Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Dalier Sylw: trafodaeth yn unig; ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei ddodi ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.** |
| **4.** | | **Diweddariad gan yr Heddlu**<br>**I dderbyn unrhyw adroddiad gan yr Heddlu.** |
| **5.** | | **Cyfranogiad y Cyhoedd**<br>Derbyn cyflwyniad gan Llinos Alun ar sefyllfa Plas Tan y Bwlch a chyfle i ofyn cwestiynau wedyn. |
| **6.** | | **Cofnodion Derbyn a chadarnhau Cofnodion**<br>Cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor – 11eg Tachwedd 2024 |
| **7.** | | **Ymgynghoriad Cynlluniau Parcio**<br>Derbyn ac ystyried Ebost gan Gyngor Gwynedd, copi ynghlwm. |
| **8.** | | **Ebost Urdd Gobaith Cymru**<br>Ystyried yr Ebost canlynol, a'r dofennau sydd ynglwm.<br><br>*Annwyl Gyngor Tref / Cymuned,*<br><br>*Mae'r Urdd yn falch o lansio apêl Cronfa Cyfle i Bawb 2025. Llynedd, diolch i gefnogaeth hael cynghorau cymuned a thref ledled Cymru, cafodd dros 300 o blant a phobl ifanc difreintiedig gyfle i fwynhau gwyliau oddi cartref am y tro cyntaf.*<br><br>*Dwi'n atodi llythyr gan Brif Weithredwr yr Urdd, Sian Lewis er eich sylw a thaflen gyda manylion ein apêl eleni. Gyda'r galw yn uwch nag erioed, mae ein uchelgais i gynnig 1000 o lefydd yn fwy nag erioed. Byddai'n wych derbyn eich cefnogaeth.*<br><br>*Os hoffech chi gyflwyniad gan aelod o staff o'r Urdd i ddysgu mwy am wrth y Gronfa, cysylltwch.* |
| **9.** | | **Sbrint Stiniog**<br>Ystyried cais am gefnogaeth – llythyr ynghlwm. |
| **10.** | | **Prosiect Bro: Arolwg Sosioieithyddol Cynhwysfawr o Gymunedau Cymraeg Cyfoes**<br><br>Ystyried llythyr gan Richard Roberts, copi ynghlwm. |
| **11.** | | **Adroddiad Gethin Roberts – Ysgoloriaeth Patagonia**<br>Derbyn ac ystyried adroddiad enilydd 2024-25 Ysgoloriaeth Patagonia, copi ynghlwm. |
| **12.** | | |

Sioned Graham-Cameron
Clerc y Dref
DYDDIAD: 3ydd Rhagfyr 2024